

Cyfrif Blodau-Pryfed wedi ei Amseru: canllaw blodau targed

Datblygwyd y canllaw hwn i gynorthwyo arolwg y Cyfrif Blodau-Pryfed wedi ei Amseru (Cyfrif FIT) sydd yn rhan o [Gynllun Monitro Peillwyr y DU](#) (PoMS).



Dolenni

Cyflwyniad	2
Pwy sy'n trefnu'r prosiect hwn?.....	2
O fis Ebrill ymlaen.....	3
Dant y llew, <i>Taraxacum officinale</i> agg.....	3
Blodau menyn, rhywogaeth <i>Ranunculus</i>	4
Marddanhadlen Wen, <i>Lamium album</i>	5
Y ddraenen wen, <i>Crataegus</i>	6
O fis Mai ymlaen.....	7
Miaren (neu'r Fwyaren Ddu), <i>Rubus fruticosus</i> agg.	7
O fis Mehefin ymlaen	8
Lafant (neu Lafant Seisnig), <i>Lavandula angustifolia</i>	8
Efwr, <i>Heracleum sphondylium</i>	9
Y Bengaled a'r Bengaled Fawr, <i>Centaurea nigra</i> a <i>C. scabiosa</i>	10
Meillionen Wen, <i>Trifolium repens</i>	11
Llyisiau'r Gingroen, <i>Senecio jacobaea</i> a pherthnasau	12
O fis Gorffennaf ymlaen	13
Grug, <i>Calluna vulgaris</i>	13
Ysgall, rhywogaethau <i>Cirsium</i> a <i>Carduus</i>	14
Buddleja (neu Coeden Fêl, neu Gadair Orweddian), <i>Buddleja davidii</i>	17
Iorwg, <i>Hedera helix</i>	18
Blodau amgen sydd yn addas ar gyfer y Cyfrif FIT.....	19

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllaw i'r 14 o rywogaethau neu fathau o flodau, sef ein targedau ar gyfer y Cyfrif FIT. Wrth gynnal cyfrif, hoffem i chi ganolbwyntio ar un o'r blodau targed hyn os yn bosibl, am y bydd hyn yn gwneud y cyfrifon yn fwy cyson ac yn ein galluogi ni i gymharu niferoedd pryfed o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, os na allwch ddod o hyd i unrhyw un o'r blodau targed yn eich ardal chi, mae'n iawn dewis planhigyn arall sy'n blodeuo fel eich ffocws. Ceir rhestr o flodau amgen ar y diwedd.

Nodir pob blodyn targed yn nhrefn y mis y maent yn dechrau blodeuo fel arfer, ond gallwch ddefnyddio'r rhywogaeth darged ar gyfer eich cyfrif chi pryd bynnag y byddwch yn eu gweld yn blodeuo, nid oes rhaid i chi gadw at y misoedd a awgrymir. Ceir hefyd wybodaeth ynghylch ble y gallech ddod o hyd i'r planhigyn, unrhyw awgrymiadau adnabod a allai fod eu hangen, a sut i gyfrif y blodau.

Pwy sy'n trefnu'r prosiect hwn?

Mae'r Cyfrif FIT yn rhan o'r Cynllun Monitro Peillwyr (PoMS) o fewn Partneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU, wedi ei gydlyn gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH). Caiff ei ariannu ar y cyd gan Defra, Llywodraeth Cymru a'r Alban, JNCC a phartneriaid prosiect, yn cynnwys CEH, Bumblebee Conservation Trust, Butterfly Conservation, British Trust for Orthithology, Hymettus, Prifysgol Reading a Phrifysgol Leeds. Nod PoMS yw darparu data sydd ei angen ar gyflwr peillwyr pryfed y DU, yn arbennig gwenyn gwyllt a phryfed hofran, a'u rôl yn cefnogi ffermio a bywyd gwyllt. Mae PoMS yn cynnwys sawl ymagwedd wahanol tuag at fonitro peillwyr, yn cynnwys Cyfrif FIT yn ogystal ag arolwg systematig o beillwyr ac adnoddau blodeuol ar rwydwaith o safleoedd haenedig ar hap ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

Am fwy o wybodaeth am PoMS ewch i: www.ceh.ac.uk/pollinator-monitoring



*Prosiect Defra BE0125/ NEC06214: Sefydlu Partneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU
Dogfen fersiwn 3.0 Chwefror 2018*

Noddir y cyfieithiad Cymraeg trwy garedigrwydd prosiect Tyfu'r Dyfodol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru



O fis Ebrill ymlaen

Dant y llew, *Taraxacum officinale* agg.

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Mae'r blodau cyfarwydd Dant y llew yn cael eu gweld mewn ystod eang iawn o gynefinoedd, ond mae'n well ganddynt safleoedd sy'n cael eu haflonyddu fel porfeydd, ochrau ffyrdd, lawntiau, traciau, llwybrau a thir gwastraff.

Gellir eu cymysgu â blodau cyfansawdd melyn eraill (e.e. Peradyl yr Hydref, a welir uchod) ond mae'r coesau cau a'r sudd gwyn yn arwydd clir.

Ceir llawer o 'ficro-rywogaethau' o ddant y llew, y rhan fwyaf yn anodd dweud y gwahaniaeth rhyngddynt. Nid oes angen eu hadnabod i lefel micro-rywogaethau ar gyfer Cyfrif FIT.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer pennau'r blodau (a nodir yn ôl y cylchoedd ar frig y cyfuniad o luniau uchod ar yr ochr chwith).

Blodau menyn, rhywogaeth *Ranunculus*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Mae blodau menyn yn flodau poblogaidd ar laswelltir a choedwrych, yn arbennig mewn ardaloedd cefn gwlad. Mae ganddynt bum petal melyn llachar fel arfer. Ceir sawl rhywogaeth: y rhai mwyaf cyffredin yw'r Crafanc Brân Ymlusgol (*Ranunculus repens*), Crafanc Brân y Gweunydd (*Ranunculus acris*) a Chwys Mair (*Ranunculus bulbosa*).

Nid oes angen gwahaniaethu rhwng y rhywogaethau ar gyfer y Cyfrif FIT, ond os ydych yn gwybod pa rywogaeth yr ydych wedi ei defnyddio, ychwanegwch y wybodaeth honno ar y ffurflen gofnodi. (Mae awgrymiadau adnabod ar gael ar dudalennau 50–51 o'r [Canllaw Adnabod Rhywogaethau](#) o'r Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol.)

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y blodau unigol (a nodir gan hirgrynon gwyn a welir ar frig y cyfuniad o luniau uchod ar yr ochr dde).

Marddanhadlen Wen, *Lamium album*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Fe'i gwelir mewn coetir, ochrau gwrychoedd, ochr ffyrdd ac ar dir garw, ac weithiau mewn gerddi (yn aml ar bridd ffrwythlon yn agos at aneddeleodd). Mae gan y blodau gwyn ffurf arferol planhigion yn nheulu'r mintys, gyda'r dail yn edrych yn debyg i ddanadl poethion.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y sbrigynnau blodau (a nodir gan yr hirgrynon ar frig y cyfuniad o luniau uchod ar yr ochr chwith).

Y Ddraenen Wen, *Crataegus*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Mae'r ddraenen wen yn tyfu fel llwyn, mewn coetir neu ar hyd ymyl coedwigoedd, gan ffurfio clytiau o brysgwydd ar laswelltir, neu fel rhan o goedwrych. Mae'r blodau'n edrych yn debyg i lwyni fel y Ddraenen Ddu (sydd yn dechrau blodeuo yn gynharach yn y flwyddyn) ond mae siâp y ddeilen yn nodweddiadol.

Ceir dwy rywogaeth o'r Ddraenen Wen: Y Ddraenen Wen (*Crataegus monogyna*) sy'n gyffredin ar draws llawer o Brydain, a Draenen y Goedwig (*Crataegus laevigata*) a welir yn bennaf yn hanner deheuol a dwyreiniol Prydain. Nid oes angen gwahaniaethu rhwng y rhywogaethau ar gyfer Cyfrif FIT, ond os ydych yn gwybod pa rywogaethau yr ydych wedi eu defnyddio, ychwanegwch y wybodaeth honno ar y ffurflen gofnodi.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y blodau unigol (a nodir gan gylchoedd ar frig y cyfuniad o luniau ar yr ochr chwith). Os yw'r Ddraenen Wen yn tyfu fel llwyn tal neu wrych, gall y cwadrat 50cm x 50cm fod wedi ei leoli'n fertigol neu ar ongl gyfleus yn y llwyn, cyhyd â'i fod yn nodi'n glir y rhan o'r blodau y byddwch yn ei defnyddio ar gyfer eich cyfrif.

O fis Mai ymlaen

Miaren (neu'r Fwyaren Ddu), *Rubus fruticosus* agg.

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Llwyn cyffredin gyda blodau gwyn, yn cynhyrchu mwyar duon yn nes ymlaen, gyda choesau â phigau bachog. Gellir eu gweld mewn coedwigoedd, gwrychoedd, gweundir a mannau gwastraff.

Mae llawer o 'ficro-rywogaethau' o'r fiaren, sydd yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt. Nid oes angen eu hadnabod i lefel micro-rywogaethau ar gyfer Cyfrif FIT.

Dylai'r cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y blodau unigol (a nodir gan gylchoedd ar y chwith o'r cyfuniad lluniau uchod).

O fis Mehefin ymlaen

Lafant (neu Lafant Seisnig), *Lavandula angustifolia*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Planhigyn cyfarwydd mewn gerddi a pharciau, gyda blodau porffor ag arogl penodol.

Dylai'r cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar niferoedd y pigynnau blodau (a nodir gan yr hirgrynon yn y llun uwchben). Mewn clytiau dwys o Lafant gallech ganfod bod gennych lawer iawn o flodau i'w cyfrif. Os felly, mae'n iawn amcangyfrif, e.e. trwy gyfrif blodau mewn chwarter o'r cwadrat a lluosî â phedwar i gael cyfanswm ar gyfer y cwadrat cyfan.

Efwr, *Heracleum sphondylium*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	----------------	------------	------	------



Fe'u gwelir mewn ystod eang o gynefinoedd, yn cynnwys glaswelltir garw ac wedi ei aflonyddu, yn arbennig ar ochr ffyrdd a llwybrau ffordd, troeon coetir, prysgwydd, glannau afonydd, twyni wedi eu sefydlogi, clogwyni arfordirol, llystyfiant perlysiâu tal mynyddig a thir gwastraff.

Ceir nifer o blanhigion wmbeliffer gweddol debyg, ond mae'r dail llydan ac yn arbennig y petalau anghymesur, yn helpu i wahaniaethu rhwng yr Efwr a'i berthnasau.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer yr wmbelau blodau (a nodir gan y cylchoedd du ar frig y cyfuniad o luniau uchod ar yr ochr dde).

Y Bengaled a'r Bengaled Fawr, *Centaurea nigra* a *C. scabiosa*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Gwelir y Bengaled mewn ystod eang o briddoedd mewn dolydd a phorfeydd, clogwyni morol, ar ochr ffyrdd, glannau rheilffyrdd, prysgwydd, ymyl coetiroedd, ffiniau caeau a thir gwastraff. Gwelir y Bengaled Fawr mewn sefyllfaoedd tebyg ond yn fwyaf aml ar briddgalch neu galchfaen, ac mae'n llai cyffredin y tu allan i Loegr.

Nid oes angen gwahaniaethu rhwng y rhywogaethau ar gyfer Cyfrif FIT, ond os ydych yn gwybod pa rywogaethau yr ydych wedi eu defnyddio, ychwanegwch y wybodaeth honno at y ffurflen gofnodi.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y pennau blodau (a nodir gan gylchoedd gwyn yn y cyfuniad o luniau uchod).



Greater Knapweed: bracts green with a narrow brown edging

Common Knapweed: bracts mostly brown

Meillionen Wen, *Trifolium repens*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Fe'i gwelir ar ystod eang o laswelltir, yn arbennig y rheiny sy'n cael eu pori neu eu torri, a hefyd ar dir gwastraff ac mewn cynefinoedd cynefinol eraill. Caiff ei hau yn eang ar laswelltir amaethyddol, ac ar ochr ffyrdd, ac mae sawl cyltifar masnachol ar gael.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y pennau blodau) a nodir gan y cylchoedd yn y llun uwchben).

(Mae'r Feillionen Goch hefyd yn ddeniadol i bryfed sy'n peillio, a gellir ei defnyddio ar gyfer y Cyfrif FIT hefyd, ond os oes Meillionen Wen ar gael, dyna'r un yr hoffem i chi ei thargedu gyntaf.)

Llysiau'r Gingroen, *Senecio jacobaea* a pherthnasau

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Mae Llysiau'r Gingroen yn gyffredin ar laswelltir ac yn arbennig o helaeth ar borfeydd wedi eu hesgeuluso, yn llawn cwingod neu wedi eu gor-bori. Fe'i gwelir hefyd ar dwyni tywod, mewn prysgwydd, coed agored ac ar hyd troeon coetir, tir gwastraff, ochrau ac ymylon ffyrdd, ac ar greigiau, mariandroedd a muriau.

Ceir sawl rhywogaeth arall o lysiau'r gingroen yn rhywogaeth *Senecio*. Mae Penfelen y Gors yn gyffredin ar laswelltir gwlyb a gwlypdiroedd, tra bod y Benfelen Ledlwyd yn amlwg ar laswelltir sych (ar briddgalch neu galchfaen yn aml) yn ne Prydain, ac mae'r Benfelen Ledlwyd yn lledaenu yn ne Prydain, yn arbennig ar dir gwastraff ac ochr ffyrdd. Ar gyfer Cyfrif FIT, gallwch drin llysiau'r gingroen fel grŵp, ond os ydych yn gwybod yr union rywogaeth, ychwanegwch hi at y ffurflen gofnodi. (Mae'r awgrymiadau ar gyfer adnabod tair rhywogaeth llysiau'r gingroen ar gael ar dudalennau 55–56 o'r [Canllaw Adnabod Rhywogaethau](#) o'r Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol.)

O fis Gorffennaf ymlaen

Grug, *Calluna vulgaris*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	-------------------	------	------



Planhigyn prysgoediog sy'n tyfu ar weundir, rhysoydd a glaswelltir a diffyg maethynnau, ac ar goetir agored ar briddoedd asidig. Gall ddatblygu fel prif rywogaeth ar draws darnau sylweddol o weundir a rhysoydd.

Ceir planhigion sy'n perthyn yn rhywogaeth *Erica*, yn cynnwys Grug Lledlwyd a Grug Croesddail, ond mae gan y rhain flodau mwy lliwgar (gweler isod). Ceir hefyd Grug amrywiol sy'n tyfu mewn gerddi, rhai sydd yn blodeuo llawer cynharach yn y flwyddyn. Ar gyfer y Cyfrif FIT, ein targed yw'r gwir grug *Calluna*, ond os nad yw ar gael, gallwch ddefnyddio blodyn sy'n perthyn a'i gofnodi yn y category "Arall".

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y pigynnau blodau (a nodir gan hirgrynon ar frig y cyfuniad o luniau uchod ar yr ochr chwith). Os yw'r blodau yn eich rhan chi yn ddwys, mae'n iawn amcangyfrif, e.e. trwy gyfrif blodau mewn chwarter o'r cwadrat a'u lluosu â phedwar i gael cyfanswm ar gyfer y cwadrat cyfan.



The larger, brighter flowers of Bell Heather (left, © nz_willowherb via Flickr CC) and Cross-leaved Heath (right, © Natural England via Flickr CC).

Ysgall, rhywogaethau *Cirsium* a *Carduus*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------

Mae sawl rhywogaeth o'r ysgall yn rhywogaeth *Cirsium* a rhywogaeth *Carduus*. Nodir y tair rhywogaeth mwyaf cyffredin isod, ond gallwch ddewis unrhyw rywogaeth o'r ysgall ar gyfer eich Cyfrif FIT ac nid oes angen i chi wybod yr union rywogaeth (ond os ydych yn gwybod, ychwanegwch hi ar y ffurflen gofnodi, a thynnwch luniau o'r blodau a'r coesau).

Ar gyfer pob math o ysgall, dylai cyfrifon y blodau fod yn seiliedig ar nifer pennau'r blodau (a nodir gan gylchoedd yn y lluniau isod).



Gwelir **Ysgallen y Maes**, *Cirsium arvense*, ar borfeydd, dolydd gwellt a manau glaswelltog garw, ochr ffyrdd, caeau â'r a thir arall wedi ei amaethu, ac mewn cynefinoedd trefol a thir gwastraff. Mae ganddi flodau golau, lliw lelog, a cheir pigau ar y dail ond nid ar y coesau.



Gwelir y **Farchysgallen**, *Cirsium vulgare*, mewn ystod eang o gynefinoedd, yn cynnwys porfeydd wedi eu gor-bori a glaswelltir garw, clogwyni morol, twyni, llinellau cyfeiriad y llif a chynefinoedd wedi eu hafloynyddu yn cynnwys caeau â'r, tomenni sbwriel, tir gwastraff ac ardaloedd llosg mewn coetir. Mae'r blodau'n fwy ac yn borffor tywyllach nag Ysgallen y Maes a chyda'r Farchysgallen ceir pigau ar y dail a'r coesau.



Creeping Thistle has no spines on its stems (left),
Spear Thistle has spiny stems (right).



Gwelir **Ysgallen y Gors**, *Cirsium palustre*, mewn cynefinoedd gwlypach yn aml yn cynnwys ffeniau, corydd, glaswelltir llaith, coetir gwlyb a ffynhonnau a sgydau ucheldir, ond mae hefyd yn tyfu mewn amodau sychach fel sialc. Mae fel arfer yn tyfu coesau tal, heb ganghennau, gyda chlystyrau o flodau porffor bach. Mae'r dail a'r coesyn yn bigog. (Mae'r Ysgallen Grech (*Carduus crispus*) yn cael ei chamgymryd weithiau am Ysgallen y Gors. Mae gan yr Ysgallen Grech ganghennau amlwg ar ei choesau fel arfer.)

Buddleja (neu Coeden Fêl, neu Gadair Orweddian), *Buddleja davidii*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------




Llwyn cyfarwydd yn yr ardd sydd hefyd yn tyfu ar dir gwastraff, ger rheilffyrdd, mewn chwareli, ar ochr ffyrdd ac mewn cynefinoedd trefol yn gyffredinol (lle mae'n aml yn tyfu ar furiau ac adeiladau wedi eu hesgeuluso). Mae'n well ganddo safleoedd sych, wedi eu haflynyddu lle gall poblogaethau mawr ddatblygu o'i hadau sy'n cael eu lledaenu gan y gwynt.

Ceir ystod o rywogaethau ac amrywiaethau o Buddleja – ar gyfer y Cyfrif FIT chwiliwch am y rhywogaeth mwyaf cyffredin a helaeth, *Buddleja davidii*, ond gellir defnyddio mathau eraill o Buddleja (dywedwch ar y ffurflen gofnodi os ydych wedi defnyddio un o'r lleill, fel *Buddleja globosa* sydd a phigau blodau oren, crwn, llai).

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer y pigau blodau (a nodir gan hirgrynon ar waelod y cyfuniad o luniau uchod ar y chwith).

Iorwg, *Hedera helix*

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
--------	-----	---------	------------	------	------



Planhigyn bythwyrth cyfarwydd sydd weithiau'n crwydro dros ardaloedd o'r ddaear (e.e. mewn coetiroedd) ond fydd hefyd yn dringo gan ddefnyddio boncyffion coed neu furiau ac ati fel cymorth, ac yn gallu tyfu'n fawr gyda choesau prenaidd. Dim ond planhigion aeddfed sy'n dringo sy'n cynhyrchu blodau. Mae'r blodau yn lliw gwyrddfelyn golau, disylw ac yn ymddangos mewn clystyrau ar ddiwedd yr haf, gan barhau i mewn i'r hydref. Maent yn adnodd gwerthfawr iawn o neithdar a phail ar gyfer pryfed yn hwyr yn y flwyddyn.

Dylai cyfrifon blodau fod yn seiliedig ar nifer pennau'r blodau (a nodir gan hirgrynon gwyn ar yr ochr chwith yn y cyfuniad o luniau uchod).



Gwenynen fêl ar flodyn iorwg © stanze / FlickrCC

Blodau amgen sydd yn addas ar gyfer Cyfrif FIT

Os na allwch ddod o hyd i unrhyw un o'r 14 blodyn targed a restrir uchod rydych yn rhydd i ddewis targed arall sydd yn denu pryfed yn eich lleoliad. Mae'r rhestr isod yn rhoi rhai rhywogaethau ychwanegol y mae'n hysbys eu bod yn denu pryfed peillio, ond os oes angen, gallwch ddefnyddio rhywogaethau eraill nad ydynt ar y rhestr. Rhowch wybod i ni pa rywogaethau neu fath o flodau yr ydych wedi eu defnyddio wrth ychwanegu eich canlyniadau i'r ffurflen gofnodi ar-lein.

Ar gyfer rhai o'r rhywogaethau hyn, mae awgrymiadau adnabod ar gael yn y [Canllaw Adnabod Rhywogaethau](#) o'r Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol.

Cymraeg	Taxon	Math	Blodeuo	Blodeuo hyd at
Marddanhadlen Goch	<i>Lamium purpureum</i>	gwyllt	Ionawr	Rhagfyr
Merhelygen / helygen	<i>Salix</i>	gwyllt	Chwefror	Mai
Draenen Ddu	<i>Prunus spinosa</i>	gwyllt	Mawrth	Mai
Llysiau'r Ysgyfaint	<i>Pulmonaria</i>	gardd	Mawrth	Mai
Llysiau'r Gerwyn	<i>Glechoma hederacea</i>	gwyllt (gardd)	Mawrth	Mehefin
Cyfarwdf	<i>Symphytum officinale</i>	gardd, gwyllt	Mawrth	Mehefin
Llysiau Llywelyn	<i>Veronica</i>	gwyllt, gardd	Mawrth	Medi
Afal	<i>Malus pumila</i>	gardd, gwyllt	Ebrill	Mai
Ceiriosen Chwerw	<i>Prunus avium</i>	gwyllt	Ebrill	Mai
Gorthyfail	<i>Anthriscus sylvestris</i>	gwyllt	Ebrill	Mehefin
Cribell Goch	<i>Pedicularis sylvatica</i>	gwyllt	Ebrill	Gorffennaf
Llysiau'r Gwrid	<i>Pentaglottis sempervirens</i>	gardd, gwyllt	Ebrill	Gorffennaf
Glas y Gors	<i>Myosotis</i>	gwyllt, gardd	Ebrill	Medi
Tafod yr ych	<i>Borago officinalis</i>	gardd, amaeth	Ebrill	Hydref
Llosgdraenen	<i>Pyracantha</i>	gardd	Mai	Mehefin
Rhododendron	<i>Rhododendron ponticum</i>	parciau, gerddi	Mai	Mehefin
Cerddinen / Criafolen	<i>Sorbus aucuparia</i>	gwyllt	Mai	MehefinC
Corn glas	<i>Ajuga reptans</i>	gwyllt, gardd	Mai	Gorffennaf
Croesgoch hirgoes	<i>Geranium</i>	gardd, gwyllt	Mai	Medi
Mintys y gath	<i>Nepeta</i>	gardd	Mai	Medi
Meillionen Goch	<i>Trifolium pratense</i>	gwyllt, amaeth	Mai	Medi
Pabi	<i>Papaver</i>	gardd, amaeth	Mai	Hydref
Fioled y Mynydd	<i>Viola lutea</i>	gwyllt	Mehefin	Awst
Milddail	<i>Achillea millefolium</i>	gwyllt, gardd, amaeth	Mehefin	Medi
Clychlys	<i>Campanula</i>	gardd, gwyllt	Mehefin	Medi
Penlas yr yd	<i>Centaurea cyaneus</i>	gardd	Mehefin	Medi
Moronen Wyllt	<i>Daucus carota subsp. carota</i>	gwyllt	Mehefin	Medi
Bysedd y cŵn	<i>Digitalis purpurea</i>	gwyllt, gardd	Mehefin	Medi
Grug Lledlwyd /Grug Croesddail	<i>Erica cinerea</i> ac <i>Erica tetralix</i>	gwyllt, gardd	Mehefin	Medi
Pys Ceirw'r Mynydd	<i>Lotus</i>	gwyllt	Mehefin	Medi
Tresgl	<i>Potentilla erecta</i>	gwyllt	Mehefin	Medi
Llin y Llyffant	<i>Linaria vulgaris</i>	gwyllt	Mehefin	Hydref
Llaethysgallen	<i>Sonchus</i>	gwyllt	Mehefin	Hydref
Llysiau'r Angel	<i>Angelica sylvestris</i>	gwyllt	Gorffennaf	Awst
Ysgallen bengron	<i>Echinops</i>	gardd	Gorffennaf	Awst
Clafrrllys	<i>Knautia arvensis</i>	gwyllt	Gorffennaf	Awst
Helyglys Hardd	<i>Chamerion angustifolium</i>	gwyllt, tir llwyd	Gorffennaf	Medi
Y Fedan Chwerw	<i>Eupatorium cannabinum</i>	gwyllt	Gorffennaf	Medi
Mintys y Creigiau	<i>Origanum</i>	gwyllt, gardd	Gorffennaf	Medi
Cedorwydd	<i>Pulicaria dysenterica</i>	gwyllt	Gorffennaf	Medi
Clustiau'r oen	<i>Stachys byzantina</i>	gardd	Gorffennaf	Medi
Clafrrllys Gwreidd-dan	<i>Succisa pratensis</i>	gwyllt	Gorffennaf	Medi
Ffenigl y cŵn	<i>Tripleurospermum inodorum</i>	gwyllt	Gorffennaf	Medi

Cynllun Monitro Peillwyr y DU: Canllaw blodau targed Cyfrif FIT

Ffromlys Chwarennog	<i>Impatiens glandulifera</i>	gwyllt	Gorffennaf	Hydref
---------------------	-------------------------------	--------	------------	--------